**CYPE(6)-18-22 – Papur i'w nodi 10**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

26 Medi 2022

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dyddiedig 8 Gorffennaf yn gofyn am waith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd: Gweithgarwch Corfforol Ymhlith Plant a Phobl Ifanc. Rwy'n ymateb gan ei fod o fewn fy mhortffolio.

Heb os, mae'r pandemig wedi effeithio ar lefelau gweithgarwch corfforol pobl ifanc. Er gwaethaf hyn, ers cyhoeddi adroddiad y pwyllgor yn ôl ym mis Mawrth 2019, rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol ar draws yr argymhellion, a byddwch yn dod o hyd i gamau gweithredu wedi'u diweddaru yn erbyn pob un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn Atodiad A.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i fuddsoddi mewn cyfleusterau Chwaraeon a hyrwyddo mynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled y wlad. Fel Llywodraeth rydym yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, ac mae hynny ar flaen y gad yn y penderfyniadau a wnawn. Rydym wedi cyflwyno mentrau gan gynnwys y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol a welodd fuddsoddiad o £4.85miliwn yn darparu lleoedd i bron i 8,000 o blant fwynhau gweithgareddau, bwyd iach ac addysg maeth yn ystod gwyliau haf yr Ysgol; a'r Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, a ddarparodd weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed i gefnogi eu lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys mwy o weithgarwch corfforol.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld yr ymateb hwn yn foddhaol ac y gallwch werthfawrogi'r gwaith caled sy'n mynd rhagddo i gefnogi pobl ifanc i fyw bywydau iach, hapus yng Nghymru.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Pumed Senedd: Gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc

| Rhif | Argymhelliad | Ymateb Diweddaraf Llywodraeth Cymru – Medi 2022 |
|---|---|---|
| 1. | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu fframwaith mesur cenedlaethol y cytunwyd arno ar gyfer lefelau gweithgarwch corfforol a ffitrwydd fel mater o flaenoriaeth, i safoni a gwella'r broses casglu data. | Mae'r cam hwn wedi'i ohirio oherwydd ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, i gefnogi Grŵp Gweithgarwch Corfforol Cenedlaethol (GGCC) sydd newydd ei sefydlu, sy'n adrodd i fwrdd gweithredu cenedlaethol Pwysau Iach: Cymru Iach, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain adolygiad o'r sefyllfa o ran data gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Y nod fydd cydgrynhoi'r holl ddata a thystiolaeth gyfredol am weithgarwch corfforol ar un llwyfan. Bydd hyn yn sicrhau dull safonol o ddehongli ac adrodd ar ddata at amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd y gwaith datblygu yn dechrau yn hydref 2022. |
| 2. | Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Mesur Plant i fonitro gordewdra ymhlith plant y tu hwnt i 4-5 oed. Rydym yn credu y dylai argymhelliad Coleg Brenhinol y Paediatregwyr ac Iechyd Plant i fesur ar ôl geni, cyn ysgol ac yn ystod blaenlencyndod gael ei roi ar waith fel lleiafswm. | Mae ymrwymiad wedi'i nodi yng nghynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2022-24 i adolygu'r Rhaglen Mesur Plant. Mae grŵp gwyliadwriaeth genedlaethol o dan gadeiryddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i sefydlu i ystyried camau gweithredu yn y dyfodol ac mae papur yn cael ei baratoi ar gyfer hydref 2022 lle bydd argymhellion y grŵp yn cael eu hystyried ar gyfer gweithredu pellach. Fodd bynnag, y flaenoriaeth gyntaf yn y tymor byr fu ailsefydlu'r Rhaglen Mesur Plant, lle bu tarfu ar ddata oherwydd yr ymateb i'r pandemig. |
| 3. | Rydym yn argymell bod cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod angen canolbwyntio ar ddulliau teuluol yn cael ei defnyddio'n sail i gamau yn y strategaeth derfynol i atal a lleihau gordewdra, gan gynnwys targedau uchelgeisiol a threfniadau monitro effeithiol i sicrhau deilliannau pendant. | Trwy'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a'i Chynlluniau Cyflawni mae nifer o fentrau'n cael eu cynnal sydd ag ystod o dargedau ynghlwm wrthynt sy'n canolbwyntio ar ddulliau gweithredu teuluol. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu timau system ledled Cymru a fydd yn canolbwyntio ar atal, gan weithio gyda chymunedau i nodi a dod o hyd i atebion lleol. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn tri Pheilot Plant a Theuluoedd (CFP) a ddatblygwyd gyda phartneriaid lleol. Mae'r rhain wedi'u sefydlu i fabwysiadu dull systemau cyfan sy'n ystyried y ffactorau amrywiol sy'n arwain at fod dros bwysau neu'n ordew, gan weithio drwy gamau cydgysylltiedig trawsffurfiol ar draws ystod eang o ddisgyblaethau a rhanddeiliaid. Rhan greiddiol o'r dull hwn yw gweithredu Ymyriad Cartref ataliol eilaidd ar gyfer teuluoedd plant yn y blynyddoedd cynnar rhwng 3 a 7 oed yn unol â'r cyfnod sylfaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r ardaloedd peilot wedi'u dewis i ystyried gwahanol fathau o gymunedau a lleoliadau yng Nghymru lle mae nifer yr achosion o ordewdra a thros bwysau yn uchel.<br>• Merthyr Tudful, fel awdurdod lleol bach yn y cymoedd wedi'i leoli o amgylch tref<br>• Ynys Môn, awdurdod lleol bach gyda ffocws mwy gwledig, Cymraeg ei iaith<br>• Caerdydd, cymuned ddu neu Asiaidd o leiafrifoedd ethnig.<br><br>Cyhoeddwyd Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ddiwygiedig ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd yn 2021. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gweithio gyda'u cymunedau lleol i sefydlu ystod o gymorth a gwasanaethau, gan gynnwys cymorth lefel 3 arbenigol. Er bod rhai Byrddau Iechyd wedi datblygu eu gwaith ymhellach na'u cymheiriaid yn y maes hwn, rydym yn defnyddio dull cydgysylltiedig ac yn dysgu o arferion da. Er enghraifft, yng Nghaerdydd a'r Fro mae rhai enghreifftiau o hyn yn eu rhaglenni, Maeth i'ch Un Bach (NYLO) a Theuluoedd Egnïol, Bywydau Egnïol (AFAL) a lansiwyd yn unol â Strategaeth PI:CI, i roi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd. Mae'r llwybr yn cynnwys datblygu data diffiniedig a threfniadau monitro. |
| 4. | Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio i ddatblygu rhaglen sy'n hybu manteision ffordd egnïol o fyw, megis cerdded a beicio, i'r teulu cyfan. | Yn flaenorol, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru Bartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru a sefydlodd raglenni gwaith allweddol ar gyfer cydweithio, gan gynnwys darparu'r Gronfa Iach ac Egnïol.<br><br>Mae Grŵp Gweithgarwch Corfforol Cenedlaethol (GGCC) diwygiedig bellach wedi'i sefydlu drwy Bwysau Iach: Cymru Iach gydag aelodaeth ehangach sydd â'r nod o fwrw ymlaen â chyflawni ac ystyried sut i alluogi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a seilwaith ledled Cymru. Bydd gan y grŵp drosolwg o'r holl ymyriadau gweithgarwch corfforol y cyfeirir atynt yng Nghynllun Cyflawni 2022 - 22 Pwysau Iach: Cymru Iach, sy'n cynnwys cyflawni meysydd allweddol megis sefydlu Rhaglen Ysgolion Egnïol Dyddiol. Mae hyn hefyd yn cynnwys cysylltu â'r Bwrdd Teithio Llesol i ystyried cyfleoedd i gyflawni ar draws nifer o feysydd a fydd yn cefnogi cerdded a beicio. |
| 5. | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach yn y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael ei alluogi i ddatblygu'r Sgiliau Echddygol Sylfaenol sy'n ofynnol ar oedran cynnar yn yr ysgol, a sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â bylchau yn y | Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles wedi'i ddatblygu o amgylch dilyniant mewn dysgu, gan roi ystyriaeth sylweddol i ddatblygiad corfforol. Mae arbenigwyr Llythrennedd Corfforol yn y maes hwn wedi llywio arweiniad y Cwricwlwm yn helaeth. Bydd yn darparu'r fframwaith y gall ymarferwyr ddewis y profiadau mwyaf priodol ohono i gefnogi dysgu plentyn, drwy gydol y continwwm dysgu 3-16. |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sgiliau hyn. Byddem yn cefnogi buddsoddiad er mwyn i raglenni megis SKIP Cymru gael eu cyflwyno ledled y wlad i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn gallu cefnogi plant yn ddigonol i ddysgu'r sgiliau hyn. | |
| 6. | **Gwrthod** | |
| 7. | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd yn ymgynghori'n rheolaidd â disgyblion ynghylch y dewis a'r ystod o weithgareddau corfforol sydd ar gael iddynt a sicrhau bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth. | Bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi cyfleoedd i rieni a gofalwyr, dysgwyr, a'r gymuned helpu i ddatblygu a siapio cwricwlwm eu hysgol. Mae hyn yn cynnwys ystyried y gweithgareddau corfforol sydd ar gael i ddysgwyr ac ystyried eu barn.<br><br>Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn arolwg cenedlaethol ar-lein, sy'n ymddiddori'n bennaf yn yr agweddau, yr ymddygiad a'r cyfleoedd sydd gan bobl ifanc mewn perthynas â chwaraeon. Mae'r arolwg nid yn unig yn helpu Chwaraeon Cymru a'r sector i ddeall pwy, ble, a sut mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon, ond mae hefyd yn helpu i adrodd stori gymhellol o chwaraeon, ac yn bwysig ar gyfer yr iteriad hwn, yn rhoi cipolwg ar effaith y pandemig. Yr Arolwg yw un o'r cyfleoedd mwyaf yn y byd, fesul pen o'r boblogaeth, i bobl ifanc gael dweud eu dweud ar chwaraeon. Ar 28 Mawrth 2022, lansiwyd pumed iteriad yr arolwg, gan wahodd ysgolion ledled Cymru i gymryd rhan. Daeth yr arolwg i ben yn ddiweddar ddydd Gwener 22 Gorffennaf.<br><br>Cymerodd dros 116,000 o ddisgyblion a thua 950 o athrawon ran yn Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022, gan roi cipolwg manwl ar anghenion, galwadau a chymhellion pobl ifanc. Mae'r data yn y broses o gael ei ddadansoddi (Gorffennaf-Awst 2022). Bydd adroddiadau lefel ysgol yn cael eu darparu cyn bo hir a disgwylir i adroddiadau mewnwelediad ar lefel ADY ac adroddiadau cenedlaethol gael eu cyhoeddi ym mis Hydref. Bydd athrawon ac ysgolion a gymerodd ran yn yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn cael adroddiadau lefel ysgol cyn bo hir er mwyn sicrhau y gall eu cynllunio ar gyfer cynigion chwaraeon fod yn seiliedig ar adborth uniongyrchol gan ddisgyblion.<br><br>Mae Chwaraeon Cymru hefyd am sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ansawdd uchel y tu hwnt i'r diwrnod ysgol. Er mwyn hwyluso hyn, eleni maent wedi arwain a chydlynu 'cyfnod peilot' menter Egnïol ar Draws yr Ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae hyn wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad o £300,000 gan Lywodraeth Cymru ac mae'n benodol i waith y tu allan i'r cwricwlwm.<br><br>Bydd datblygu'r Rhaglen Ysgolion Bywiog Bod Dydd yn gwreiddio llais disgyblion ac ysgolion wrth ddatblygu dulliau gweithredu yn y dyfodol. Mae gwaith mewnweliad wedi dechrau i ystyried safbwyntiau cychwynnol er mwyn helpu i ddatblygu'r camau nesaf, sy'n cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| 8. | **Gwrthod** | |
| 9. | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o flaenoriaeth i addysg gorfforol yn y cwricwlwm newydd ac yn gwneud y flaenoriaeth hon yn glir i Estyn, ac y dylai gweithgarwch corfforol gael mwy o flaenoriaeth yng nghyfundrefn arolygu Estyn ar gyfer ysgolion. Credwn y dylai'r fframwaith arolygu gynnwys ymlynu wrth y gofyniad i ddarparu 120 o funudau o weithgarwch corfforol yr wythnos, ond hefyd ansawdd y profiad addysg gorfforol. | Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno o fis Medi 2022. Wrth wraidd fframwaith y Cwricwlwm i Gymru mae pedwar diben sy'n ganolog i bob penderfyniad a wneir am y cwricwlwm newydd. Un o'r pedwar diben yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn 'unigolion iach a hyderus'. Yn ganolog i'r cwricwlwm newydd bydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'i nod yw sicrhau bod dysgu a chymorth ynghylch materion fel iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael eu darparu i holl bobl ifanc Cymru. Am y tro cyntaf, bydd gan Iechyd a Lles statws cyfartal yn y gyfraith i feysydd pwysig eraill y cwricwlwm ysgol.<br><br>Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn cynnwys ystod o ddarpariaethau sydd â'r nod o sicrhau y bydd iechyd a lles yn rhan o'r cwricwlwm ar gyfer pob ysgol a lleoliad. Mae datblygu iechyd a lles corfforol wedi'i gynnwys fel cysyniad allweddol o fewn y cod gorfodol Beth sy'n Bwysig, ac fe'i nodir yn y termau canlynol: Mae manteision gydol oes i ddatblygu iechyd a lles corfforol.<br><br>Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddatblygu'r hyder, cymhelliant, cymhwysedd corfforol, gwybodaeth a dealltwriaeth a all eu helpu i fyw bywydau iach ac egnïol sy'n hybu iechyd a lles corfforol da.<br>Rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i ddatblygiad corfforol plant yn y cwricwlwm newydd.<br><br>Mae amrywiaeth o gymorth ac arweiniad ar gael i ysgolion, gan gynnwys Rhwydwaith Cenedlaethol a sefydlwyd i ddod â gweithwyr addysgu proffesiynol, arbenigwyr, rhanddeiliaid, llunwyr polisi a phartneriaid galluogi ynghyd i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i, a chyfleoedd ar gyfer, gweithredu Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys Iechyd a Lles. Bydd y sgyrsiau yn gyfle allweddol i drafod ymagwedd genedlaethol at adnoddau, deunyddiau ategol ac anghenion dysgu proffesiynol. |
| 10. | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar | Ym mis Mawrth 2017, datblygodd a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru feini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae'n ofynnol i bob rhaglen AGA a |

| | | |
|---|---|---|
| | weithgarwch corfforol yn y rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl athrawon | ddarparwyd yng Nghymru ers mis Medi 2019 gael ei hachredu'n annibynnol yn erbyn y meini prawf hyn. Fel rhan o fodloni gofynion achredu, bydd y rhaglenni AGA newydd hyn yn sicrhau bod athrawon newydd yn gallu addysgu pedwar diben y cwricwlwm newydd a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gan sicrhau bod mwy o ffocws ar addysgu gweithgarwch corfforol.<br><br>Bydd y Partneriaethau AGA hefyd yn datblygu dulliau i gynorthwyo darpar athrawon i ddeall pwysigrwydd arfer sy'n seiliedig ar ymchwil, fel bod athrawon yn cael eu haddysgu ynghylch pwysigrwydd cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil, gan gynnwys ymchwil ar iechyd corfforol a lles dysgwyr, i lywio eu harfer addysgu yn barhaus drwy gydol eu bywydau gwaith. Rydym wrthi'n adnewyddu'r meini prawf ar gyfer y rownd achredu nesaf ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau ym mis Medi 2024. Mae iechyd meddwl a chorfforol a lles staff ysgol a dysgwyr yn un o'r meysydd a fydd yn cael ei gryfhau yn ystod y broses newydd. |
| 11. | Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud Ysgolion Bro yn realiti i bawb, a sicrhau cysondeb o ran mynediad at gyfleusterau ysgolion ar gyfer cyfleoedd i gyflawni gweithgarwch corfforol y tu hwnt i oriau ysgol ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn deuddeng mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. | Mae tystiolaeth ymchwil ac arolygu yn glir mai ysgolion sy'n adeiladu ar ddysgu ac addysgu effeithiol ac yn gweithredu fel Ysgolion Bro yw'r rhai sy'n cael y llwyddiant mwyaf o ran goresgyn effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Fel y cyfryw, mae angen i ni sicrhau bod ein hysgolion yn gweithredu fel Ysgolion Bro, gan estyn allan at rieni a gofalwyr ac ymgysylltu â'r gymuned gyfan.<br><br>Dros y misoedd nesaf byddwn yn buddsoddi £3.84m mewn cynyddu nifer y Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a gyflogir gan ysgolion gyda rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion. Byddwn hefyd yn darparu cyllid o £660k i dreialu penodiad Rheolwyr Ysgolion Bro a buddsoddiad cyfalaf o £20m i alluogi ysgolion i ddatblygu ymhellach fel asedau cymunedol.<br><br>Bydd tair agwedd allweddol ar addysg fro:<br>• Ymgysylltu â Theuluoedd - lle mae ysgolion yn cyfathrebu'n dda â theuluoedd ac yn cynnwys rhieni wrth gefnogi dysgu eu plant.<br>• Ymgysylltu â'r Gymuned - lle mae cyfleusterau'r ysgol yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer dysgu teuluol, oedolion a chymunedol ac ystod o weithgareddau cymunedol.<br>• Gweithio Aml-Asiantaeth - lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gydgysylltiedig i gefnogi plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel. Gallai hyn gynnwys gofal iechyd, cymorth iechyd meddwl ac asiantaethau trydydd sector. Trwy greu gwell gweithio mewn partneriaeth ar draws gwahanol feysydd rydym yn fwy tebygol o ddarparu gwell cefnogaeth i blant a'u teuluoedd sy'n profi anawsterau. |
| 12. | Dylai Llywodraeth Cymru rannu arfer da, lle mae ysgolion yn | Fel rhan o'n gwaith i hyrwyddo Ysgolion Bro byddwn yn parhau i amlygu enghreifftiau o arfer da trwy ein gweithgareddau cyfathrebu ac unrhyw ganllawiau a gynhyrchir. |

| | | |
|---|---|---|
| | darparu mynediad ehangach at eu cyfleusterau, gan gynnwys datrysiadau ar gyfer goresgyn anawsterau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu, staffio a chludiant. | |
| 13. | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i sicrhau ei fod yn cynnwys, fel rhan o'i gyfundrefn arolygu, asesiad o'r dewis o weithgareddau sydd ar gael mewn ysgolion, mynediad cyfartal ar gyfer bechgyn a merched ac a ymgynghorir â disgyblion ai peidio ynghylch y gweithgareddau a ddarperir. | Cyflwynodd Estyn arweiniad arolygu diwygiedig ar gyfer ysgolion ac UCDau yng ngwanwyn 2022. Nodir cyfleoedd i arolygwyr ystyried datblygiad corfforol disgyblion a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol mewn pedwar o'r pum maes arolygu. Anaml iawn y mae adroddiadau arolygu Estyn o ysgolion unigol yn cynnwys manylion yn ymwneud â gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion, neu brofiadau disgyblion ar sail eu rhyw neu eu rhyw. Oherwydd cwmpas eang yr hyn y mae Estyn yn ei arolygu, mae Estyn yn adrodd trwy eithriad lle mae'r ddarpariaeth yn arbennig o gryf neu lle mae achos sylweddol i bryderu.<br><br>Trwy waith thematig Estyn, gallant ystyried materion penodol yn fanwl ac maent yn awyddus i adolygu gweithrediad Cwricwlwm i Gymru trwy gyfres o adroddiadau thematig sy'n edrych ar y meysydd dysgu a phrofiad. Gallai hyn gynnwys adolygiad thematig yn ymwneud â maes dysgu a phrofiad iechyd a lles. Gan weithio gydag Estyn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn datblygu hwn fel opsiwn wrth ystyried meysydd blaenoriaeth ar gyfer cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2023-24. |
| 14. | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru i godi proffil chwaraeon merched. Gallai hyn gynnwys rhaglen lle mae "modelau rôl benywaidd o fyd y campau" yn ymweld ag ysgolion i siarad am eu profiadau ac annog mwy o ferched i gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon. | Mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gweithgor Rhyngwladol ar Fenywod mewn Chwaraeon sy'n cael ei gynnal yn y DU o 2022 - mae rhagor o wybodaeth am yr IWG ar gael yn: https://iwgwomenandsport.org/. Y cydweithrediad hwn yw rhwydwaith mwyaf y byd sy'n ymroddedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb mewn chwaraeon, addysg gorfforol a gweithgaredd corfforol. Bydd y bartneriaeth yn hyrwyddo proffil menywod mewn chwaraeon ac yn meithrin dysgu a gallu ar gyfer y sector chwaraeon yng Nghymru.<br><br>Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o Sefydliadau Cenedlaethol sy'n helpu i gyflwyno a hyrwyddo chwaraeon ar gyfer amrywiaeth o gymunedau - gan gynnwys gweithio'n benodol gyda menywod a merched. Un enghraifft yw 'Rhaglen Us Girls' gan Gemau Stryd Cymru a lansiwyd yng Nghymru yn 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc, a ariennir gan Chwaraeon Cymru a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid, yn cefnogi mwy na 4000 o Lysgenhadon Ifanc mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru sy'n creu ac yn darparu cyfleoedd i'w cyfoedion a hyd yn oed oedolion fod yn gorfforol egnïol drwy chwaraeon. Yn ei dro, mae'r rhaglen yn rhoi hyder a sgiliau i bobl ifanc i fod yn arweinwyr chwaraeon y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen ar gael yma.<br><br>Yn 2021 rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i'r Urdd o dan y Gaeaf Llawn Lles i gefnogi cystadleuaeth pêl-rwyd genedlaethol a Chynhadledd #FelMerch. Gwelodd y gystadleuaeth pêl-rwyd genedlaethol dros 2,000 o ferched o 120 o dimau yn cystadlu mewn digwyddiad undydd, gan hyrwyddo manteision cymryd rhan, ymarfer corff a ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Roedd Cynhadledd #FelMerch yn brofiad preswyl deuddydd i fenywod a merched ifanc, gan adeiladu ar fomentwm rhaglen ehangach #FelMerch. Nod #FelMerch yw ysbrydoli, cefnogi a grymuso merched a menywod ifanc rhwng 14 a 25 oed i ddod yn actif trwy chwaraeon o fewn amgylchedd diogel a chroesawgar. |
| 15. | Dylai Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru gynnwys amod mewn ceisiadau am gyllid ar gyfer rhaglenni gweithgarwch corfforol y bydd arian ond yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n pwysleisio dull gwirioneddol gynhwysol o ddarparu gweithgarwch corfforol, a chynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n sicrhau bod ystyriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn cael eu hymgorffori o'r dechrau'n deg. | Mae dull ariannu newydd Chwaraeon Cymru wedi cael ei roi ar waith. Mae hyn yn defnyddio data yn benodol sy'n sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei ysgogi gan gynhwysiant. Mae'r dull hwn wedi ymgorffori cydraddoldeb o fewn y ffordd y caiff buddsoddiad ei ddosbarthu i sicrhau bod yn rhaid i bawb sy'n derbyn cyllid partneriaeth Chwaraeon Cymru allu effeithio ar amcanion cydraddoldeb.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Chwaraeon Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i ehangu ei ddull o ariannu cymunedol. Mae hyn wedi defnyddio dull ymchwil defnyddwyr, gan siarad yn uniongyrchol â channoedd o unigolion a sefydliadau i ddileu rhwystrau i gael mynediad at gyllid, yn enwedig ar gyfer y grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae gweithredu dull cyllidwr torfol hefyd wedi ymgorffori cynwysoldeb trwy flaenoriaethu buddsoddiad fesul ardaloedd o amddifadedd.<br><br>Ar hyn o bryd mae dull buddsoddi cyllid cyfalaf agored, gyda'r sefydliad yn datblygu dull strategol o ymdrin â'r elfen gyllido hon fel rhan o'r buddsoddiad cyfalaf o £8m a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir blaenoriaeth i agendâu amddifadedd a chydraddoldeb o ran sut y caiff y cyllid hwn ei ddosbarthu yn y dyfodol. |
| 16. | Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch | Flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym wedi ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Mae bellach yn cefnogi hyd yn oed mwy o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Yn ogystal â'r elfen prydau ysgol am ddim, mae'r gyfres GDD bellach yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, y rheini yn y blynyddoedd cynnar, y rheini mewn unedau cyfeirio disgyblion, a'r rheini mewn addysg heblaw darpariaeth yn yr |

| | | |
|---|---|---|
| | amddifadedd mewn lefelau gweithgarwch corfforol. | ysgol. Mae'r elfen fwyaf newydd - GDD-Mynediad - wedi'i chyflwyno i gefnogi rhieni gyda rhai o gostau'r diwrnod ysgol, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon.<br><br>Rhoddir cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn uniongyrchol i ysgolion, a nhw sydd i benderfynu ar y defnydd gorau o wariant gan mai nhw sy'n adnabod eu hardal orau. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio mewn rhai ysgolion i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon. Mae llawer yn rhedeg clybiau ar ôl ysgol ac mae rhai yn darparu cludiant i'r pwll nofio lleol. Mewn blynyddoedd blaenorol yn Ysgol Fabanod y Foryd, Y Rhyl, mae'r dysgwyr wedi elwa o gefnogaeth y grant sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau corfforol. Roedd yr ysgol yn beilot ar gyfer cyflwyno cwricwlwm newydd y rhaglen Llythrennedd Corfforol. Roedd y rhaglen yn cynnwys sgiliau Beic-gallu ac addysg awyr agored, gan ymgorffori ymweliad preswyl ar gyfer Blwyddyn 2. Mae ymestyn gwaith Llythrennedd Corfforol yn y modd hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a ffordd o fyw disgyblion ac wedi cynyddu eu hymgysylltiad â dysgu yn gyffredinol, sydd wedi effeithio yn gadarnhaol ar safonau. |
| 17. | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ymdrechion Chwaraeon Cymru i leihau'r bwlch amddifadedd mewn lefelau gweithgarwch corfforol o ystyried y diffyg cynnydd | Mae Chwaraeon Cymru ar hyn o bryd yn arwain dull arloesol o sefydlu pum Partneriaeth Chwaraeon yng Nghymru. Bydd Partneriaethau Chwaraeon yn trawsnewid y ffordd y caiff chwaraeon cymunedol eu datblygu, eu cyflwyno, eu harwain a'u hariannu - gan ymateb i anghenion pob cymuned o fewn y pum rhanbarth.<br><br>Mae Partneriaeth Chwaraeon yn dod â chydweithrediad o randdeiliaid allweddol o fewn rhanbarth diffiniedig, sy'n deall pwysigrwydd ac yn canolbwyntio ar gyflawni buddion chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Dan arweiniad mewnwelediad, byddant yn darparu arweinyddiaeth strategol a chynllunio ar lefel ranbarthol, gyda phwrpas cyffredin, ar lefel leol, y gall pawb gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol trwy amrywiaeth o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion orau.<br><br>Drwy Bartneriaethau Chwaraeon, rydym yn cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy gymryd camau i atal anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Gyda'r dasg o sicrhau newid system, byddant yn gatalydd i fynd i'r afael â dau fater hir sefydlog:<br>• Sicrhau bod y gefnogaeth a'r cyfleoedd cywir yn eu lle ar gyfer y rhai nad ydynt yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, gyda ffocws clir ar ddileu rhwystrau i'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.<br>• Cymryd camau i fodloni'r galw cudd uchel gan y rhai sy'n weithgar ond sydd am wneud llawer mwy. |

| | | |
|---|---|---|
| 18. | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud trefniadau i sefydlu trefniadau cyllido mwy hirdymor i alluogi Chwaraeon Cymru a’i bartneriaid i gynllunio’n fwy strategol. | Ym mis Mawrth 2022, rhoddodd Llywodraeth Cymru dymor o gylch gwaith llywodraethu i Chwaraeon Cymru, wedi’i gefnogi gan gyllideb tair blynedd ar gyfer 2022-23 i 2024-25. Mae'r gyllideb yn cynnwys dyraniad cyfalaf o £8m y flwyddyn i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon.<br><br>Bydd y dull buddsoddi newydd yn darparu cynigion ariannu dangosol dros gyfnod o sawl blwyddyn ar gyfer yr holl Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol a Phartneriaethau Chwaraeon Rhanbarthol. Mae'r dull ariannu Partner Cenedlaethol hefyd yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o ddarparu cynigion aml-flwyddyn. Bydd yr ymrwymiadau ariannu yn naturiol yn dibynnu ar y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Chwaraeon Cymru. |
| 19. | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu’r defnydd o gytundebau Adran 106 i weld a ydynt yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol i sicrhau y darperir mannau gwyrdd diogel a hygyrch mewn datblygiadau tai newydd. | Gohiriwyd casglu data ar gyfer y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn ystod y pandemig. Byddwn yn edrych i ailddechrau casglu data i weld sut mae awdurdodau lleol yn darparu mannau agored a gwyrdd drwy’r system gynllunio, yn unol â pholisïau cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru. |
| 20. | Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried ei safbwynt ynglŷn â defnyddio cyllid canlyniadol o ardoll y diwydiant diodydd ysgafn ac ymrwymo i’w ddefnyddio i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a lleihau baich gordewdra yng Nghymru, fel y gwnaed mewn rhannau eraill o’r DU. | Fel gyda chyllid canlyniadol o bob math, caiff y swm ei ychwanegu at gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru a’i ddyrannu’n unol â’n blaenoriaethau. Mae hyrwyddo llesiant ac iechyd da i bawb yn un o flaenoriaethau allweddol ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, a dyna pam yr ydym yn parhau i gynorthwyo pobl i fyw mewn ffordd iachach, gan chwalu’r rhwystrau y mae afiechyd yn eu codi o safbwynt cyflogaeth a chyfleoedd, ac ymdrin â’r cylch cenedliadol o afiechyd ac anweithgarwch.<br><br>Rydym wedi buddsoddi dros £13m yn 2022-24 i helpu i gyflawni nodau’r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae’r cynllun cyflawni dwy flynedd a gefnogir gan y cyllid hwn yn canolbwyntio ar atal a’r blynyddoedd cynnar i gefnogi nifer o feysydd ar draws y Llywodraeth i alluogi newid. |